Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Tlodi ac allgáu cymdeithasol: adolygiad o dystiolaeth ryngwladol ar ddefnydd o drosglwyddiadau arian parod

**Irene Bucelli ac Abigail McKnight**
Y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol, Ysgol Economeg Llundain
Medi 2022

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gael mynediad at dystiolaeth annibynnol drylwyr am yr hyn sy'n gweithio, a'i rhoi ar waith. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno a defnyddio tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond yn gweithio'n agos gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd ynghylch sut mae mynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol sy'n gallu helpu i lywio a gwella polisïau, cael mynediad atynt a'u defnyddio;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, cynhyrchu, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â'r prif heriau economaidd a chymdeithasol; ac yn
- Tynnu ar ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo dealltwriaeth o sut gall tystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisi a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau ynghylch llunio a gweithredu polisi.

Trwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymysg ymchwilwyr i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisi sy'n cael effaith.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan drwy www.wcpp.org.uk

## Arianwyr Craidd

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYD

**Sefydlwyd Prifysgol Caerdydd** yn 1883. Mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol sydd wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, ac mae'n benderfynol o feithrin perthnasoedd rhyngwladol cadarn wrth iddi amlygu ei hymrwymiad i Gymru.

UKRI Economic and Social Research Council

**Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK ac Research England i wneud y mwyaf o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesi ffynnu.

Llywodraeth Cymru Welsh Government

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | **4** |
| **Cefndir** | **5** |
| **Cyflwyniad** | **6** |
| **Cyd-destun polisi** | **6** |
| **Tystiolaeth o effeithiolrwydd polisi** | **14** |
| **Heriau a ffactorau hwyluso** | **24** |
| **Casgliad** | **25** |
| **Cyfeirnodau** | **28** |
| **Atodiad: Methodoleg** | **35** |
| **Diolchiadau** | **40** |

# Crynodeb

- Gall ymyriadau a gynlluniwyd i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar drosglwyddiadau arian parod fanteisio i'r eithaf ar y cymorth sydd ar gael a mynd i'r afael â rhwystrau unigol i'r defnydd (e.e. stigma, gwybodaeth, costau canfyddedig) a ffactorau gweinyddol/sy'n gysylltiedig â chynllun (e.e. cymhlethdod, lefel y cymorth).

- Mae gwell dealltwriaeth o'r lefelau defnydd presennol yng Nghymru a datblygu strategaethau gwerthuso cadarn yn hanfodol.

- Gall 'pasbortio' budd-daliadau (e.e. drwy groesgofrestru symlach neu awtomataidd) gynyddu'r defnydd, a gellid ei gymhwyso i rai budd-daliadau datganoledig.

- Gall atebion o'r fath weithredu ar y cyd ag ymyriadau lleol sy'n fwy addas i adeiladu gwybodaeth leol, mabwysiadu gweithgareddau allgymorth rhagweithiol addas, a gallant ddarparu cymorth effeithiol i aelwydydd sy'n arbennig o agored i niwed.

- Mae cysylltiadau rhwng defnydd o drosglwyddiadau arian parod a meysydd polisi yr ymdrinnir â nhw mewn adolygiadau eraill, er enghraifft:
    - **Allgáu digidol:** Mae cynyddu digideiddio'r ddarpariaeth nawdd cymdeithasol yn rhoi blaenoriaeth i wella cynhwysiant digidol ochr yn ochr â darparu dewisiadau amgen addas i'r rhai a allai elwa ar wasanaethau personol, wyneb yn wyneb.
    - **Dyled aelwydydd; Ansicrwydd bwyd; Tlodi tanwydd:** Gall rhaglenni lleol sy'n integreiddio nifer o wasanaethau gyflawni ystod o ddibenion ynghyd â hawlio cymorth (e.e. cyngor ar ddyledion, rheoli ynni ac ati).

- Rydym yn gorffen yr adolygiad gyda rhai camau gweithredu addawol yn ymwneud â defnyddio croes-gofrestru awtomataidd a mentrau integredig lleol, gan gynnwys:
    - Archwilio trefniadau rhannu data presennol a gwerthuso synergeddau posibl, gan gynnig llwybrau hawlio amgen ac asesu a yw'r system yn cynyddu 'symlrwydd' i weinyddwyr a hawlwyr.
    - Cefnogi mentrau lleol, gan gynnwys drwy werthusiadau sy'n cynnwys dadansoddi canlyniadau dosbarthiadol ac sy'n mynd y tu hwnt i asesu allbynnau.

# Cefndir

Comisiynwyd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru gan Lywodraeth Cymru i adolygu strategaethau, rhaglenni ac ymyriadau tlodi ac allgáu cymdeithasol ledled y byd. Fel rhan o'r gwaith hwn, comisiynwyd y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol (CASE)[1] yn Ysgol Economeg Llundain i gynnal adolygiad o'r dystiolaeth ryngwladol ar bolisïau a rhaglenni addawol a gynlluniwyd i leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol ar draws deuddeg maes polisi allweddol. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddefnydd o drosglwyddiadau arian parod.

Dyma'r cwestiynau allweddol a ofynnwyd ym mhob un o'r deuddeg adolygiad polisi:

- Pa bolisïau, rhaglenni ac ymyriadau rhyngwladol sy'n effeithiol wrth leddfu tlodi?
- Pa briodweddau/safonau a nodweddion sy'n allweddol neu'n gyffredin i'r gwahanol ddulliau hynny?

Ymdrinnir â'r cwestiynau drwy ddarparu:

- Cyd-destun Cymru ym mhob maes polisi a phrif fentrau Llywodraeth Cymru;
- Gwybodaeth fanwl am berthynas y maes polisi dan sylw â thlodi ac allgáu cymdeithasol;
- Crynodeb o'r dystiolaeth ynghylch profiad a allai helpu i ddeall effaith polisïau ar bobl ac ymateb y bobl i bolisïau o'r fath;
- Trosolwg o'r dystiolaeth ryngwladol ynghylch effeithiolrwydd polisïau (gan gynnwys astudiaethau achos); a
- Heriau a ffactorau hwyluso sy'n gysylltiedig â rhoi polisïau ar waith.

Yn ogystal â'r deuddeg adolygiad polisi, rydym wedi llunio adroddiad trosolwg sy'n crynhoi'r dystiolaeth allweddol o bob adolygiad unigol, nodi cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd polisi a chloriannu'r holl dystiolaeth i roi nifer o argymhellion polisi, neu gamau gweithredu addawol, ym mhob un o'r deuddeg maes. Cyfeiriwch at yr

[1] Sefydlwyd y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol (CASE) yn Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain (LSE) ym 1997. Canolfan ymchwil amlddisgyblaethol ydyw sy'n archwilio anfantais gymdeithasol a rôl polisïau cymdeithasol a chyhoeddus wrth ei hatal, ei lliniaru neu ei gwaethygu. Mae gan ymchwilwyr yn CASE brofiad helaeth o gynnal adolygiadau polisi sy'n ymdrin â thystiolaeth yn y Deyrnas Unedig a llenyddiaeth ryngwladol.

Atodiad i gael manylion am fethodoleg, gan gynnwys sut y dewiswyd y deuddeg maes polisi penodol.

Mae'r gwaith hwn yn rhan o gyfres o adroddiadau a gynhyrchwyd gan WCPP fel rhan o'i gwaith ar dlodi ac allgáu cymdeithasol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â'r gwaith hwn gan CASE, ceir dau adroddiad ar natur, graddfa a chyfeiriad tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru – un yn canolbwyntio ar dystiolaeth a data meintiol, a'r ail yn canolbwyntio ar dystiolaeth o brofiad go iawn (Carter, 2022a; 2022b). Comisiynodd WCPP hefyd y Sefydliad Polisi Newydd i gynnal adolygiad o strategaethau lliniaru tlodi rhyngwladol (Kenway et al., 2022) sy'n archwilio dulliau llywodraethol cyffredinol o fynd i'r afael â thlodi.

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn adolygu tystiolaeth ryngwladol ynghylch rôl cynyddu'r defnydd o drosglwyddiadau arian parod wrth leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol. Cydnabyddirbod defnydd anghyflawn o drosglwyddiadau arian parod yn fater pwysig yng Nghymru (KPMG, 2010; ELGCC, 2019; WRAC, 2019), a bod cyfraddau defnydd yn amrywio rhwng gwahanol fudd-daliadau. Yn y Deyrnas Unedig, mae defnydd isel yn gyffredin ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith (60-67%) a Chredyd Pensiwn (60-76%) (DWP, 2020), tra bod defnydd o Ostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru tua 55-65% (Aston et al., 2020).

Mae gwahaniaethau rhwng grwpiau yn dod i'r amlwg hefyd – er enghraifft, roedd defnydd o Fudd-dal Tai ymhlith teuluoedd yn y sector rhentu cymdeithasol yn 88% yn 2018/19, o gymharu â 69% yn y sector rhentu preifat. Mae hyn yn cyfateb i 92% ac 80% o'r cyfanswm a allai fod wedi'i hawlio, yn y drefn honno (DWP, 2020). Mae gan hawliau i deuluoedd a phlant gyfraddau defnydd uwch, sydd hefyd i'w weld mewn gwledydd eraill yn Ewrop (Nelson, 2011; Eurofound, 2015; OECD, 2018). Er enghraifft, mae'r defnydd o Fudd-dal Plant yn uchel ar y cyfan – 93% yn ôl amcangyfrifon ar gyfer 2017/2018 (HMRC, 2019). Fodd bynnag, mae bylchau yn y defnydd yn parhau: er enghraifft, mae'r defnydd o Brydau Ysgol am Ddim tua 85% yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2021), ar ôl cynyddu o tua 73% yn 2011 (Llywodraeth Cymru, 2013).

# Cyd-destun polisi

Mae budd-daliadau nawdd cymdeithasol, credydau treth, lwfansau a thaliadau yng Nghymru yn faterion a gedwir yn ôl i raddau helaeth. Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol

a'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor wedi'u datganoli tra bod Taliadau Tai Dewisol yn cael eu gweinyddu gan Lywodraeth Cymru.

Dangoswyd bod diwygiadau i systemau treth a budd-daliadau'r Deyrnas Unedig rhwng 2010 a 2019 yn atchweliadol (Cooper a Hills, 2021; Bourquin et al., 2019a). Mae'r system nawdd cymdeithasol wedi dod yn llawer llai hael, yn enwedig ar gyfer mathau penodol o aelwydydd. Mae aelwydydd incwm isel wedi bod ar eu colled o ganlyniad i'r newidiadau hyn yn gyffredinol, yn enwedig teuluoedd â phlant. Mae Bourquin et al.  (2019) yn dangos colledion cyfartalog o 11% o incwm (£1,200 y flwyddyn) ymhlith y 10% tlotaf o aelwydydd yn y Deyrnas Unedig yn uniongyrchol o ganlyniad i ddiwygiadau lles. Mae teuluoedd incwm isel sydd â phlant wedi cael eu taro hyd yn oed yn galetach, gyda cholledion o tua 20% (£4,000 y flwyddyn).

Mae Cooper a Hills (2021) yn tynnu sylw at y ffaith bod y berthynas rhwng yr isafswm incwm a warentir gan system nawdd cymdeithasol y Deyrnas Unedig a'r llinell tlodi incwm gymharol wedi gwaethygu’n sylweddol yn ystod y pum mlynedd diwethaf, yn enwedig ar gyfer pobl sengl o oedran gweithio, cyplau heb blant, a theuluoedd yr effeithir arnynt gan y terfyn dau blentyn ar gyfer Credyd Cynhwysol (CC). Mae cyfyngiadau ar gymorth y Dreth Gyngor, diffygion Budd-dal Tai ac ad-dalu blaendaliadau Credyd Cynhwysol yn gwaethygu'r tueddiadau hyn ymhellach.

Mae diwygiadau lles yn ystod y degawd diwethaf hefyd wedi cael effaith ddaearyddol anghyfartal ledled y Deyrnas Unedig. Mae colledion ariannol wedi cronni mewn ardaloedd lle mae'r crynodiad o hawlwyr yn uwch, ac mae colledion blynyddol cyfartalog wedi bod yn arbennig o uchel mewn rhai ardaloedd, gan gynnwys Cymru (Beatty a Fothergill, 2014; 2017; Llywodraeth Cymru, 2014). Yr ardaloedd awdurdod lleol yr effeithiwyd arnynt fwyaf oedd Castell-nedd Port Talbot, Blaenau Gwent a Merthyr Tudful, lle'r oedd colledion fesul oedolyn oedran gweithio yn uwch na'r cyfartaledd, sef tua £600 y flwyddyn. Mae'r colledion hyn yn deillio'n bennaf o newidiadau i uwchraddio budd-daliadau (gan gynnwys rhewi budd-daliadau) a newidiadau i'r Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) a’r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) – sy'n adlewyrchu crynodiadau uwch o bobl sy'n hawlio budd-daliadau anabledd a salwch yn yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt fwyaf, ac yng Nghymru yn gyffredinol o gymharu â'r Deyrnas Unedig.

Yng Nghymru, ceir tystiolaeth bod Credyd Cynhwysol yn lleihau dyfarniadau cyfartalog Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Aston et al., 2020). At hynny, mae ôl-ddyledion y dreth gyngor yn fwy cyffredin ac yn fwy difrifol o dan Gredyd Cynhwysol nag o dan fudd-daliadau etifeddol. Mae ôl-ddyledion rhent (yn enwedig o ran lefelau) yn cynyddu o dan Gredyd Cynhwysol hefyd. Mae'r effeithiau hyn yn cael eu ffurfio gan ffactorau fel lefelau dyfarnu Credyd Cynhwysol, problemau â budd-daliadau wedi’u pasbortio, yr arhosiad pum wythnos a'r symudiad i daliadau misol

uniongyrchol. Mae datblygiadau o ran Credyd Cynhwysol yn bwysig er mwyn lliniaru'r ysgytwadau a gynhyrchir gan y gofyniad i aros pum wythnos, ond mae gostyngiadau dilynol yn cynyddu'r caledi i hawlwyr (Aston et al., 2020).

Cynyddodd hawliadau Credyd Cynhwysol yn ystod pandemig y Coronafeirws: dyblodd llwythi achosion ledled y Deyrnas Unedig o'u cymharu â lefelau cyn y pandemig, ac mae hawliadau newydd yn ystod 2020 yn cyfrif am 60% o'r llwyth achosion presennol (Brewer a Handscomb, 2021). Mae tua hanner yr holl rieni sengl bellach yn hawlio Credyd Cynhwysol, tra bod 39% o'r oedolion sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yn gweithio. Er gwaethaf y cynnydd wythnosol dros dro o £20 mewn Credyd Cynhwysol yn ystod y pandemig, roedd incwm teuluol un o bob tri hawliwr Credyd Cynhwysol newydd o leiaf 40% yn is na lefelau cyn y pandemig; mae tri o bob deg o deuluoedd newydd sy'n hawlio mewn mwy o ddyled; ac mae un o bob pump ar ei hôl hi o ran talu biliau hanfodol.

Mae cynnydd mewn defnydd o fudd-daliadau yn chwarae rhan bwysig o ran effaith gyffredinol Credyd Cynhwysol (De Agostini et al., 2014). Un o'r prif ddadleuon a gyflwynwyd o blaid Credyd Cynhwysol yw'r union ffordd y mae'n cydgrynhoi gwahanol daliadau nawdd cymdeithasol a phrosesau hawlio yn un – a allai arwain at gynyddu'r defnydd. Dadleuir y dylai rhai o'r bobl fwyaf difreintiedig elwa o hyn, a allai fod wedi manteisio ar rai yn unig o'r hawliau a oedd ar gael iddynt o dan yr hen system. Fodd bynnag, os na fydd y defnydd llawn a ragdybir gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) yn cael ei wireddu, bydd Credyd Cynhwysol £1.5 biliwn yn llai hael na'r system flaenorol (Brewer et al., 2017; Gardiner a Finch, 2020).

Fel y nodwyd, bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar bolisïau i gynyddu'r defnydd o drosglwyddiadau arian parod. Roedd defnydd yn destun datganiad ar y cyd gan weinyddiaethau datganoledig i'r Adran Gwaith a Phensiynau ym mis Tachwedd 2020 (Llywodraeth yr Alban, 2020) ac mae'n rhan o strategaeth dlodi Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn rhagweld 'gweithgareddau wedi'u targedu i godi ymwybyddiaeth o hawliau budd-daliadau, annog defnydd a hwyluso newid ymddygiad tymor hwy ymhlith grwpiau sy'n lleiaf tebygol o hawlio'r cymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo' (Llywodraeth Cymru, 2020). Mae chwe phrosiect peilot (a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021) yn canolbwyntio ar gynyddu defnydd ymhlith grwpiau blaenoriaeth penodol (aelwydydd BAME; teuluoedd â phlant anabl/oedolyn/oedolion anabl; pobl sy'n profi trais domestig; aelwydydd incwm isel). Mae camau i wella'r defnydd o'r holl fudd-daliadau yng Nghymru, wedi'u datganoli a heb eu datganoli, yn un o'r argymhellion allweddol yn ymchwiliad diweddar y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau *Budd-daliadau yng Nghymru: Opsiynau i'w cyflawni'n well* (2019) ac fe'i derbyniwyd mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru: mae'r adroddiad yn pwysleisio, yn benodol, opsiynau polisi sy'n ymwneud â chodi

ymwybyddiaeth, integreiddio a symleiddio'r system bresennol ac ymgysylltu ag awdurdodau lleol ar gyfer darparu gwasanaethau cynghori a chymorth.

# Y berthynas â thlodi ac allgáu cymdeithasol

Mae gan systemau nawdd cymdeithasol nodau sy'n gorgyffwrdd:

- Atal a lliniaru tlodi;
- Diogelu incwm a safonau byw rhag ysgytwadau annisgwyl (e.e. salwch neu ddiweithdra);
- Llyfnhau incwm ar hyd cylch bywyd (e.e. pan fydd pobl yn pontio o oedran gweithio i ymddeol, neu pan fydd pobl yn wynebu anghenion a chyfrifoldebau gofal plant newydd); a
- Lleihau anghydraddoldebau rhwng y rhai sydd ag anghenion gwahanol oherwydd eu hamgylchiadau (e.e. oherwydd anabledd).

Mae diffyg defnydd (llawn neu rannol, parhaol neu dros dro) yn tanseilio cwmpas effeithiol systemau amddiffyn cymdeithasol a'u gallu i gyflawni'r nodau hyn.[2]

Mae sicrhau bod gan aelwydydd lefelau digonol o incwm yn angenrheidiol mewn perthynas â nifer o feysydd polisi yr ymdrinnir â nhw mewn adolygiadau eraill (e.e. ansicrwydd bwyd; tlodi tanwydd; dyled aelwydydd; cyflenwad tai fforddiadwy) sydd, yn eu tro, yn effeithio ar ganlyniadau iechyd, lles, addysgol a chyflogaeth. Ceir tystiolaeth gref bod incwm yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar amrywiaeth o ganlyniadau plant, fel datblygiad gwybyddol a chyflawniad yn yr ysgol, datblygiad cymdeithasol ac ymddygiadol ac iechyd plant (Cooper a Stewart, 2017). Trwy ddiogelu rhag ffactorau risg sy'n gysylltiedig â'r cylch bywyd a lefelau gwahanol o anghenion, mae nawdd cymdeithasol yn hanfodol ar gyfer cyfranogiad cymdeithasol ac economaidd y rhai yr effeithir arnynt. Gall amddiffyniad cymdeithasol digonol gryfhau gwydnwch unigolion a theuluoedd sy'n agored i niwed a'u helpu i osgoi strategaethau ymdopi negyddol a fyddai'n gwaethygu allgáu cymdeithasol. Yng ngoleuni hyn, mae'n peri pryder arbennig bod Credyd Cynhwysol wedi'i gysylltu ag amrywiaeth o ganlyniadau negyddol – o fwy o ddefnydd o fanciau bwyd i iechyd

[2] Ar wahân i'r ffaith bod aelwydydd yn colli eu hawliau, mae'r defnydd isel gan rai grwpiau ac mewn rhai ardaloedd yn arwain at oblygiadau i dlodi oherwydd ei fod yn effeithio ar gywirdeb offerynnau sy'n olrhain lefelau amddifadedd (e.e. y Mynegai Amddifadedd Lluosog). Mae hyn yn arwain at ganlyniadau ar gyfer dyrannu adnoddau cyhoeddus y gellid eu defnyddio i liniaru tlodi – er enghraifft mewn ardaloedd penodol lle mae'r boblogaeth yn llai tebygol o gael y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt (Bramley a Watkins, 2013).

meddwl sy'n dirywio, ond hefyd tystiolaeth o fenywod yn cael eu gwthio i waith rhyw i gael deupen llinyn ynghyd a phrofiadau o gam-drin domestig (Cooper a Hills, 2021).

Mae dyluniad nawdd cymdeithasol yn effeithio ar ei allu i leddfu neu atal allgáu cymdeithasol. Er enghraifft, gall dyluniad nawdd cymdeithasol waethygu rhaniadau cymdeithasol nid yn unig drwy eithrio rhai grwpiau ond oherwydd gallai targedu llym fod yn stigmateiddio'r derbynwyr. Mae'r ffactorau hyn sy'n ymwneud â diffyg defnydd yn hanfodol i'w hystyried er mwyn nodi polisïau i gynyddu cyfranogiad (Matsaganis et al., 2008; 2013; Daigneault et al., 2012).

Mae cryn dystiolaeth bod cywilydd neu stigma yn ddylanwadau sy'n llywio penderfyniadau ynghylch hawlio. Mae rhai astudiaethau Ewropeaidd wedi dangos bod amrywiadau'n bodoli mewn perthynas â'r costau seicolegol a wynebir gan hawlwyr sy'n byw mewn gwahanol gyd-destunau (Hümbelin, 2019; Fuchs, 2009). Maen nhw'n cyd-fynd â normau sy'n benodol i'r gymuned ac yn effeithio ar ddefnydd: er enghraifft, fe allent esbonio cyfraddau defnydd is mewn cymunedau gwledig, lle mae'n anodd aros yn ddienw a gallai hawlwyr deimlo'n agored. Gall darparu ffyrdd amgen o hawlio (e.e. ceisiadau ar-lein) leddfu hyn ond efallai na fydd yn ddigonol ar gyfer y rhai sy'n wynebu allgáu digidol neu'r rhai a allai elwa o wasanaethau personol, wyneb yn wyneb.


At hynny, mae'n rhaid i'r rhai sy'n gymwys ar gyfer taliadau nawdd cymdeithasol fod yn ymwybodol o'u hawliau, ond hefyd ystyried eu bod yn gymwys, a chael gwybod am y broses a sut i wneud hawliad. Mae costau a manteision yn gysylltiedig â'r penderfyniad i wneud hawliad – gall y cyntaf ymwneud â chostau sy'n gysylltiedig â theithio neu amser a dreulir; mae'r olaf yn ymwneud â gwerth ariannol a hyd y budd-dal. Mae pobl yn llai tebygol o hawlio os ystyrir bod y manteision hyn yn gyfyngedig, yn annigonol neu os oes amodau a sancsiynau sylweddol ynghlwm wrthynt. Mae diffyg cyfatebiaeth rhwng llwyth achosion a chyfraddau defnyddio gwariant yn awgrymu bod pobl sy'n gymwys i gael budd-daliadau gwerth uwch yn fwy tebygol o hawlio na phobl sy'n gymwys i gael budd-daliadau gwerth is (Ribar, 2014). Adlewyrchir hyn yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig: er enghraifft, canfu Gardiner a Finch (2020) fod llai o ddefnydd o Gredyd Cynhwysol ymhlith teuluoedd sy'n gweithio yn gysylltiedig yn gyffredinol â'r symiau llai y mae ganddynt hawl iddynt, sy'n lleihau'r cymhellion i ddechrau'r broses hawlio; tra bod pobl sengl ddi-waith yn dewis peidio â hawlio oherwydd amodoldeb budd-daliadau, yn enwedig os ydynt yn ddi-waith am gyfnodau byr yn unig.

Dangosodd Ribar (2014) fod haelioni, amodoldeb a sancsiynau yn esbonio gwahanol gyfraddau cyfranogiad yn y cynllun Cymorth Dros Dro i Deuluoedd Anghenus (TANF) a'r Rhaglen Cymorth Maeth Atodol (SNAP) yn yr Unol Daleithiau. Arweiniodd ddiwygiadau i'r ddau yn y 1990au at ostyngiad sylweddol yn y cyfraddau defnydd

uchel ar gyfer y ddau gynllun wrth i nifer o gyfyngiadau gael eu cyflwyno. Er bod TANF yn cynnal polisïau cyfyngol mewn perthynas â gofynion gwaith, terfynau amser a sancsiynau, ac yn parhau i weld cyfraddau defnydd is, roedd rheolau cymhwysedd mwy hyblyg a phrosesau gweinyddu symlach wedi arwain at gynnydd mewn cyfraddau defnydd SNAP – arweiniodd hyn at fwlch cwmpas o bron 50% rhwng y ddau bolisi.

Yn olaf, gall diffyg defnydd ddeillio o wrthodiad gan yr awdurdodau (er enghraifft oherwydd gwallau gweinyddol). Mae Ffigur 1 yn darparu ffordd o gategoreiddio'r gwahanol ffactorau risg sy'n gysylltiedig â diffyg defnydd, gan ddangos bod y rhain yn ymwneud nid yn unig â'r derbynwyr unigol ond hefyd â'r cyd-destun cymdeithasol, y broses weinyddol a'r cynllun ei hun.

**Ffigur 1: Ffactorau risg ar gyfer diffyg defnydd**




Ffynhonnell: Eurofound, 2015

Trwy'r fframwaith hwn, mae'n bosibl gweld, er enghraifft, sut y gallai Credyd Cynhwysol weithio i gynyddu defnydd: mae'n symlach na'r system flaenorol a gall pylu'r gwahaniaeth rhwng budd-daliadau mewn gwaith a budd-daliadau di-waith leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â hawlio. Fodd bynnag, gallai nodweddion eraill y system weithio i'r cyfeiriad arall. Heb ystyried newidiadau dros dro diweddar sy'n gysylltiedig â phandemig y Coronafeirws (sydd wedi gwyrdroi rhai o'r toriadau sydd wedi digwydd yn ystod y pum mlynedd diwethaf ac atal trefniadau amodoldeb), mae Credyd Cynhwysol yn llai hael na'r system etifeddol y mae'n ei disodli ar gyfer mathau penodol o aelwydydd ac mewn rhai ardaloedd (Cooper a Hills, 2021; Gardiner a Finch, 2020) ac fe'i nodweddir gan gyfundrefn o fwy o amodoldeb a sancsiynau.

# Y berthynas â phrofiad pobl o dlodi ac allgáu cymdeithasol

Dehonglwyd bod newidiadau i system nawdd cymdeithasol y Deyrnas Unedig yn gosod 'hunangyfrifoldeb wrth wraidd diwygio lles' (Millar, 2018). Felly, mae deall profiadau go iawn pobl o gael mynediad at eu hawliau yn bwysicach fyth wrth i'r

cyfrifoldeb am reoli eu harian yn llwyddiannus a chael deupen llinyn ynghyd gael ei symud i'r hawlwyr.

Amlygodd tystiolaeth o brofiadau bywyd yng Nghymru fod newidiadau i'r system fudd-daliadau, gan gynnwys cyflwyno Credyd Cynhwysol, wedi lleihau incwm aelwydydd gan arwain at anawsterau ariannol sylweddol i lawer (Cyngor ar Bopeth Cymru, 2014). Mae canfyddiadau ynghylch Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac arferion adennill dyledion hefyd yn effeithio ar gyfranogiad: nodwyd bod camddealltwriaeth ynghylch gweithdrefnau hawlio ar wahân ar gyfer Credyd Cynhwysol a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn ogystal ag ofn dyled sy'n deillio o ordaliadau yn rhwystro defnydd (Aston et al., 2020).

At hynny, nid yw symlrwydd gweinyddol yn trosi'n symlrwydd i hawlwyr, gan fod y symleiddio wedi cyflwyno nodweddion anhyblyg nad ydynt yn darparu ar gyfer realiti bywydau'r hawlwyr (Summers a Young, 2020). Ategir hyn gan dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o brofiadau go iawn o hawlio Credyd Cynhwysol sydd wedi tynnu sylw at heriau yn ymwneud â'r system a allai danseilio defnydd (Gardiner a Flinch, 2020; EAC, 2020; Summers a Young, 2020). Mae lleihau amlder taliadau i unwaith y mis yn aml yn gwrthdaro â dewisiadau ac arferion cyllidebu llawer o bobl ar incwm isel sy'n aml yn cael eu talu'n amlach (Carter, 2022b). Ar wahân i'r problemau a grybwyllwyd eisoes yn sgil gorfod aros pum wythnos, gall asesiadau misol mewn ôl-ddyledion wneud taliadau'n anrhagweladwy (e.e. yn dibynnu ar sut mae amgylchiadau pobl yn newid mewn perthynas â'r cyfnod asesu) – gall hyn danseilio diogelwch ariannol a sefydlogrwydd bywydau'r hawlwyr (Summers a Young, 2020).

Mae gwallau neu ymyriadau mewn hawliadau yn achosi caledi sylweddol, oherwydd gallai cydgrynhoi nifer o fudd-daliadau adael hawlwyr heb ddim wrth gefn (EAC, 2020). Mae'n ymddangos bod y profiad o hawlio ar-lein yn begynol (Gardiner a Flinch, 2020), tra bod taliadau uniongyrchol i landlordiaid yn amhoblogaidd ar y cyfan, gan achosi i lawer o hawlwyr deimlo'n agored i niwed ac mewn perygl o gael eu troi allan (EAC, 2020). Yn y cyfamser, er gwaethaf y ffaith mai anaml y profir sancsiynau mewn gwirionedd, mae bygythiad sancsiynau yn fyw iawn ac yn achosi gorbryder wrth ymwneud â gwasanaethau'r Ganolfan Byd Gwaith (Gardiner a Flinch, 2020).

Ymddengys bod y rhwystrau rhag defnydd a ddisgrifir uchod – fel hawl i symiau isel neu amharodrwydd i ymwneud ag amodoldeb budd-daliadau – yn berthnasol i Gredyd Cynhwysol, ond yn gyffredinol mae'n ymddangos bod y cynllun yn dioddef oherwydd enw gwael a allai atal cyfranogiad ymhellach (EAC, 2020). Mae'r defnydd o Drefniadau Talu Amgen (APAs) – sy'n rhoi opsiynau i bobl ynghylch sut maen nhw'n derbyn eu taliadau Credyd Cynhwysol a sut i dalu eu rhent – yn isel hefyd: Mae APAs yn ymddangos yn werthfawr o safbwynt hawlwyr Credyd Cynhwysol, ond

nid yw APAs yn cael eu cynnig yn awtomatig ac mae ymwybyddiaeth isel, diffyg eglurder a system anhyblyg yn golygu mai ychydig iawn sy'n elwa ohonynt (Hobson et al., 2019).

Tynnodd y dystiolaeth o brofiad bywyd sylw hefyd at stigma fel mater allweddol sy'n effeithio ar ddefnydd yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Yn gysylltiedig â hyn, mae ymchwil ynghylch profiad o dlodi bwyd mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru wedi canfod bod diwylliant o hunangynhaliaeth a balchder gwledig yn cynyddu'r stigma ynghylch hawlio budd-daliadau yn y cymunedau hyn (ap Gruffudd, et al., 2017). Ni chanfuwyd astudiaeth gyfatebol o'r fath ar agweddau tuag at fudd-daliadau mewn cymunedau trefol yng Nghymru.

# Tystiolaeth o effeithiolrwydd polisi

| Ymyrraeth | Cryfder y dystiolaeth | Effeithiolrwydd |
|---|---|---|
| **Pasbortio ac awtomeiddio** | Cryf | Effeithiol |
| **Dulliau lleol, integredig** | Gwerthusiad gwan ar y cyfan | Yn debygol o fod yn effeithiol |
| **Darparu gwybodaeth** | Cryf | Cymysg |
| **Cymorth gyda'r broses hawlio** | Cryf *noder: gan gynnwys tystiolaeth o ganlyniadau sy'n deillio o *ddiffyg* cymorth | Effeithiol |
| **Meithrin partneriaethau** | Tystiolaeth dda o'u rôl, llai ar ganlyniadau uniongyrchol | Effeithiol |

Mae pwysigrwydd nawdd cymdeithasol digonol a diogelu’r lleiafswm incwm mewn perthynas â lleihau tlodi wedi'i sefydlu ers tro byd ar draws gwledydd (Kenworthy, 1999; Collado et al., 2016; Cantillon, 2011; Fraser a Marlier, 2016). Mae newidiadau mewn lefelau budd-daliadau ac o ran cwmpas yn sbardunau allweddol i newidiadau mewn tlodi, o ran y nifer a'r bwlch tlodi (Leventi et al., 2019), tra bod yna dystiolaeth bod y gostyngiad yn haelioni'r elfen cymhorthdal incwm o nawdd cymdeithasol wedi cyfrannu at weld cyfraddau tlodi yn Ewrop yn aros yn yr unfan (neu hyd yn oed yn

cynyddu), er gwaethaf twf mewn incwm cyfartalog a chyflogaeth (Fraser a Marlier, 2016).

Mae yna dystiolaeth dda bod y cyfraddau defnydd yn cael effaith ar dlodi (Finn a Goodship, 2014). Gan ddefnyddio dulliau microefelychu, dangosodd Matsaganis et al. (2008) fod defnydd anghyflawn yn effeithio ar berfformiad gwrth-dlodi systemau budd-daliadau Ewropeaidd: gan leihau'r graddau y mae budd-daliadau'n lleihau tlodi. Gwnaethant ddangos, o gymharu â senario 'defnydd llawn', bod defnydd amherffaith yn cynyddu'r gyfradd tlodi yn y Deyrnas Unedig 4% mewn perthynas â llinell dlodi ar 60% o incwm canolrifol aelwydydd. Mae'r defnydd amherffaith yn cael mwy fyth o effaith ar waelod y dosbarthiad incwm, gyda chynnydd 30% yn y gyfradd tlodi mewn perthynas â llinell dlodi a osodwyd ar 40% o incwm canolrifol aelwydydd. Cynyddodd y bwlch tlodi 16% hefyd, neu 27% wrth ystyried bwlch tlodi wedi'i bwysoli.[3] Felly, gall cynyddu'r defnydd wneud gwahaniaeth, yn enwedig i'r bobl dlotaf.

# Pasbortio ac awtomeiddio

Gall gwella'r gwaith o weinyddu nawdd cymdeithasol gynyddu'r defnydd, gan fod peidio â defnyddio budd-daliadau yn llai tebygol o ddigwydd pan fydd derbyn budd-daliadau'n cael ei gychwyn yn awtomatig; er enghraifft, pan fo'r hawl yn seiliedig ar ddata gweinyddol (Currie, 2004). Mae cofrestru awtomatig yn goresgyn rhwystrau pwysig rhag defnydd, fel anegni, diffyg ymwybyddiaeth a gwybodaeth ac, o bosibl, stigma. At hynny, trwy ganolbwyntio ar weinyddu budd-daliadau, caiff y diffyg defnydd ei lunio'n fethiant ar ran gweinyddwyr yn hytrach na hawlwyr. Y tu hwnt i ryddhau hawlwyr rhag baich, a hwyluso'r broses, mae'r polisi'n arwydd o 'gymeradwyaeth' gan yr awdurdodau a all leihau stigma (Jachimowicz et al., 2019).

Yn yr Unol Daleithiau, mae yna ymdrechion parhaus i archwilio cysylltiadau rhwng rhaglenni nawdd cymdeithasol a'r potensial ar gyfer cyfleoedd croes-gofrestru awtomatig neu symlach (Ambegaokar, 2017). Mae'r Incwm Nawdd Atodol (SSI) yn fudd-dal prawf modd a delir i bobl ddall neu anabl (gan gynnwys plant), neu'r rhai 65 oed a throsodd, sydd ag incwm neu adnoddau ariannol cyfyngedig. Yn amrywio yn ôl y dalaith, gall y sawl sy'n cael SSI hefyd gael cymorth meddygol (Medicaid) a gall eu cais am SSI fod yn gais am gymorth bwyd e.e. y Rhaglen Cymorth Maeth Atodol (SNAP). Asesodd Rupp a Riley (2016) effaith tri pholisi cofrestru taleithiau ar wahân ar gwmpas Medicaid: 1) cofrestru awtomatig ar gyfer Medicaid yn seiliedig ar SSI; 2) cais Medicaid ar wahân ond yn dibynnu ar gymhwysedd SSI i sefydlu

[3] Mae bwlch tlodi wedi'i bwysoli yn cynyddu pwysoliad incwm pellach sy'n gostwng yn is na'r llinell dlodi.

cymhwysedd Medicaid; a 3) cais Medicaid ar wahân gyda meini prawf cymhwysedd mwy cyfyngol nag SSI.

Canfuwyd bod cwmpas Medicaid yn uwch mewn taleithiau sy'n defnyddio cofrestru awtomatig, heb newid patrymau dosbarthiadol (sy'n golygu nad oedd cofrestru awtomatig yn ystumio tebygolrwydd rhai grwpiau o gael mynediad at Medicaid). Dangosodd gwerthusiad o Brosiectau Ymgeisio Cyfunol SSI/SNAP (CAP) fod cofrestru derbynwyr SSI yn awtomatig ar SNAP yn cynyddu cyfranogiad SNAP – yn y cyfnod rhwng 2000 a 2008 gwelodd y CAP gynnydd cymharol cyfartalog mewn cyfranogiad SNAP o 48% (Dorn et al., 2014).

Mae Astudiaeth Achos 1 yn amlinellu enghraifft ddiweddar o gofrestru awtomatig ar gyfer budd-daliadau henaint sy'n dibynnu ar brawf modd yng Nghanada. Er bod systemau pensiwn Canada a'r Deyrnas Unedig yn gweithio'n wahanol, mae'r Atodiad Incwm Gwarantedig (GIS) yng Nghanada a Chredyd Pensiwn yn y Deyrnas Unedig yn fathau o ychwanegiad sy'n dibynnu ar brawf modd y dangoswyd eu bod wedi cael effaith gref ar leihau tlodi – neu, yn y Deyrnas Unedig, fod ganddynt botensial i wneud hynny (Hirsch a Stone, 2020)[4].

## Astudiaeth Achos 1. Atodiad Incwm Gwarantedig yng Nghanada

**Mae'r rhan fwyaf o bobl dros 65 oed yng Nghanada yn gymwys i dderbyn pensiwn Diogelwch Henaint (OAS). Mae derbyn y pensiwn hwn yn amodol ar ofynion preswyliaeth penodol ond nid oes angen unrhyw hanes o gyflogaeth â thâl. Mae'r Atodiad Incwm Gwarantedig (GIS) yn fudd-dal ychwanegol nad yw'n drethadwy a ddarperir i 2 filiwn o bensiynwyr incwm isel. Ar ddechrau'r 2000au, tynnodd nifer o astudiaethau sylw at bryderon ynghylch cyfraddau defnyddio GIS (Shillington, 2006; HRSDC, 2010; Ben-Ishai et al., 2019).**

**Mae'r 20 mlynedd diwethaf wedi gweld ymdrechion cynyddol i wella'r defnydd, gan gynnwys rhaglenni allgymorth cynhwysfawr. Cyflwynwyd cofrestru awtomatig ar gyfer OAS yn 2012. Ym mis Rhagfyr 2017, ehangwyd cofrestru awtomatig i GIS, ar gyfer ymgeiswyr OAS newydd sy'n gymwys ar gyfer y cynllun (tua 18,000 y flwyddyn). Gall y rhai nad ydynt yn cael eu dewis ar gyfer cofrestru awtomatig barhau i wneud cais yn ysgrifenedig. Yna, mae'n rhaid i dderbynwyr gyflwyno ffurflen dreth bob blwyddyn ond nid oes angen iddynt ailymgeisio.**

[4] Yn ddiweddar, amcangyfrifodd Hirsch a Stone (2020) y byddai defnydd llawn o Gredyd Pensiwn yn arwain at ostyngiad 4.6% yng nghanran y pensiynwyr y mae eu hincwm yn is na 60% o'r incwm canolrifol ar ôl costau tai. Byddai hyn yn codi tua 440,000 o bensiynwyr allan o dlodi. Maen nhw hefyd yn amcangyfrif y byddai'r gostyngiad hwn mewn tlodi yn arwain at arbedion sylweddol i'r GIG a systemau gofal cymdeithasol yn y tymor hir.

Mae hyn yn rhan o strategaeth ehangach, sef 'cynllun gweithredu i gynyddu'r defnydd' er mwyn sicrhau bod pobl o 'grwpiau agored i niwed yn derbyn y gwasanaethau a'r cymorth y mae arnynt eu hangen' (ESDC, 2019a). Mae'r strategaeth yn cynnwys allgymorth i wella'r defnydd o Fudd-dal Plant Canada ymhlith pobl frodorol a Phecyn Cymorth OAS i helpu sefydliadau cymunedol i gynorthwyo pobl yng Nghanada i ddeall OAS a gwneud cais amdano.

Dangosodd astudiaethau sy'n archwilio effeithiau polisi incwm ymddeol yng Nghanada fod y GIS wedi gwneud cyfraniad pwysig at y gostyngiad sylweddol mewn tlodi ymhlith y boblogaeth oedrannus a'i fod yn llwyddo i amddiffyn pobl hŷn rhag caledi difrifol (Veal, 2012; Schirle, 2013; Milligan a Schirle, 2013). Cyfrannodd y rhaglen OAS/GIS at leihau canran yr hen bobl sydd islaw'r Torbwynt Incwm Isel yng Nghanada i 4%, sef 19 pwynt canran yn is nag y byddai wedi bod heb y rhaglen (ESDC, 2019b). Mae cynyddu defnydd yn sicrhau bod mwy o bobl yn elwa o'r polisi, gan leddfu eu risg o dlodi.

Yn nodedig, nid yw hyn yn achos o dderbyn yn gwbl ddiofyn: dim ond derbynwyr OAS *newydd* sy'n cael eu cofrestru'n awtomatig (mae angen i bobl eraill wneud cais o hyd), ac mae angen cyflwyno ffurflenni treth blynyddol o hyd – rhywbeth sy'n awgrymu bod rhwystrau eraill rhag defnyddio (llythrennedd ariannol, profiadau cadarnhaol o'r broses) yn bwysig o hyd.

Mae tystiolaeth ddiweddar yn awgrymu, er ei bod yn is nag ar gyfer OAS, fod y gyfradd cyfranogiad ymhlith y rhai sy'n gymwys i gael GIS wedi codi yn sgil cofrestru awtomatig (Ben-Ishai et al., 2019). Nid yw gwerthusiadau a gynhaliwyd mewn perthynas â Chynllun Gweithredu Canada (ESDC, 2019a; 2019b) yn ymdrin ag effaith ddiweddaraf cofrestru awtomatig ar gyfer GIS, ond maen nhw'n nodi rhai grwpiau sy'n debygol o elwa o drefniadau cofrestru awtomatig, gyda chanlyniadau ar gyfer y defnydd cyffredinol:

- Pensiynwyr OAS diweddar y mae eu diffyg cyfranogiad yn deillio o ddiffyg ymwybyddiaeth o GIS, yn ôl pob tebyg (28.2% o'r rhai sy'n gymwys ond nad ydynt yn ei dderbyn);
- Hen bobl ag incwm amrywiol (e.e. oherwydd incwm rhent neu hunangyflogaeth) sy'n cael eu heithrio dros dro (20.9%); a
- Phensiynwyr y mae eu hincwm ychydig o dan y torbwynt ac sydd â chymhellion ariannol llai i'w hawlio (6.8%).

Mae'r astudiaeth achos yn dangos bod awtomeiddio budd-daliadau prawf modd yn effeithiol:

- Os oes protocolau rhannu data digonol a fframweithiau cyfreithiol ar waith i alluogi awtomeiddio – rhannu data yw'r rhwystr mwyaf rhag awtomeiddio. Yn hyn o beth, mae archwiliad o'r trefniadau rhannu data

**presennol o fewn a rhwng gwahanol asiantaethau i nodi cyfleoedd ar gyfer awtomeiddio llawn neu led-awtomeiddio yn flaenoriaeth.**

- **Os cynigir llwybrau hawlio amgen – er enghraifft, i gywiro gwallau gweinyddol posibl sy'n eithrio hawlwyr cymwys.**
- **Os caiff rhwystrau unigol a chymdeithasol fel allgáu digidol a llythrennedd ariannol eu hystyried a'u datrys.**
- **Mae'r system yn dibynnu ar weithdrefnau y mae derbynwyr yn eu deall yn dda ac sy'n cyd-fynd â'u harferion (e.e. cyflwyno adroddiadau treth, sy'n arfer cyffredin yng nghyd-destun Canada).**

---

Yn amlwg, mae paru data gweinyddol a'i ddefnyddio i adnabod pobl gymwys a'u cofrestru'n awtomatig yn rhywbeth y gellir ei gymhwyso y tu hwnt i'r achos budd-daliadau henaint a drafodwyd. Er enghraifft, gellir gwerthuso'r potensial ar gyfer cofrestru awtomatig mewn perthynas â budd-daliadau a weinyddir ar lefel leol. Gellid ei ystyried fel strategaeth i hwyluso'r defnydd o Ostyngiadau'r Dreth Gyngor – yn unol ag awgrymiadau diweddar gan Sefydliad Bevan (2020). Mae CPAG (2019) yn tynnu sylw at brofiadau o arferion croes-gofrestru symlach yn yr Alban, lle nodir teuluoedd sydd â hawl i gael rhai grantiau datganoledig o'u cofnodion Budd-dal Tai a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac anfonir ffurflenni wedi'u llenwi ymlaen llaw i'w llofnodi i ryddhau'r taliad, neu hyd yn oed eu talu'n awtomatig heb fod angen llofnod. Trwy wneud awtomeiddio'n rhan o strategaeth defnydd canolog, byddai'n lleihau'r perygl o ddarnio ac yn sicrhau bod arferion gorau'n cael eu rhannu. Yn gyffredinol, gellir archwilio awtomeiddio yn fodd i ddarparu system o 'basbortio' budd-daliadau a fyddai'n ei gwneud yn haws ac yn gyflymach i wneud cais am gymorth nawdd cymdeithasol yng Nghymru.

# Dulliau lleol, integredig

Mae dulliau lleol, integredig yn cynnwys ystod o elfennau a all fynd i'r afael ag ysgogwyr unigol y diffyg defnydd. Maen nhw'n cynnwys y broses o ddarparu gwybodaeth am y budd-daliadau yn ogystal â chyngor a chymorth gyda'r broses ymgeisio. Maent yn dibynnu ar bartneriaethau gyda mudiadau allweddol mewn cymdeithas sifil – mae hyn yn hwyluso gwaith allgymorth trwy rwydweithiau anffurfiol ond gallant hefyd ddylanwadu ar berthnasoedd dibynadwy, gan effeithio ar agweddau a normau sy'n gysylltiedig â stigma. Asesir y dystiolaeth ryngwladol ynghylch y mathau hyn o ymyriadau yn unigol (darparu gwybodaeth, cymorth gyda'r broses hawlio a meithrin partneriaeth) mewn adrannau ar wahân isod. Yma, canolbwyntir ar fentrau lleol sy'n integreiddio'r ystod hon o ymyriadau ac yn arwain at

ddulliau a all, drwy ymgysylltu â grwpiau targed allweddol, a dibynnu ar gymorth gan gymheiriaid, wanhau normau yn erbyn defnyddio ac felly cynyddu'r duedd i hawlio. Mae'r dulliau hyn yn helpu i nodi a chyrraedd hawlwyr posibl ac yn lleihau costau caffael gwybodaeth am hawliau a'r broses hawlio ar gyfer hawlwyr, tra'n ceisio gwneud y broses hon yn briodol ac yn gadarnhaol.

Mae'r nodweddion hyn i'w gweld yn Astudiaeth Achos 2 – y 'brigadau ffurflen' yn yr Iseldiroedd. Fodd bynnag, mae'r astudiaeth achos hefyd yn dangos diffygion llawer o'r dulliau hyn o ran gwerthuso effeithiolrwydd. Nododd Finn a Goodship (2014) nad yw effaith nifer o brosiectau ar raddfa fach a sbardunir yn lleol yn cael ei gwerthuso'n gadarn yn aml, ac yn lle hynny eu bod yn tueddu i gynhyrchu canllawiau ar arferion gorau, neu ganolbwyntio ar ddangosyddion allbwn yn unig (e.e. mwy o gysylltiadau gwasanaeth). Mae diffyg gwerthusiad cadarn yn ei gwneud yn anoddach deall:

- pa elfennau penodol o'r mentrau sy'n gweithio;
- i bwy maen nhw'n gweithio (rhywbeth sy'n bwysig os ydym am nodi grwpiau sy'n cael eu gadael ar ôl a datblygu strategaethau digonol i'w cyrraedd);
- p'un a yw'r fenter wedi creu manteision y tu hwnt i'r boblogaeth darged; ac
- i ba raddau y mae difuddiant yn gysylltiedig â thargedu amherffaith.

## Astudiaeth Achos 2. 'Formulierenbrigades' yn yr Iseldiroedd

Gwasanaethau trefol yn yr Iseldiroedd yw 'brigadau ffurflenni' (formulierenbrigades) sy'n rhoi gwybod i bobl am hawliau i fudd-daliadau ac yn rhoi cymorth a chyngor ymarferol i lenwi ffurflenni cais. **Maen nhw'n cynnwys staff cyflogedig yn ogystal â gwirfoddolwyr hyfforddedig (e.e. myfyrwyr gwaith cymdeithasol neu gyn-fuddiolwyr) ac yn defnyddio ystod eang o weithgareddau allgymorth i ymgysylltu â darpar hawlwyr – maen nhw'n ymgysylltu â phapurau newydd rhanbarthol a lleol, ac yn defnyddio taflenni a phosteri, cyfryngau cymdeithasol a gwefannau. Maen nhw'n darparu cymorth personol i gyflwyno hawliadau, gan gynnwys ymweliadau cartref. Maen nhw hefyd yn trefnu ymgyrchoedd gwybodaeth sy'n cynnwys amrywiaeth o sefydliadau (cyrff anllywodraethol, canolfannau cymunedol, canolfannau menywod, rhieni a phlant, eglwysi, mosgiau ac ysgolion). Cefnogir y gweithgareddau lledaenu ac allgymorth hyn gan sefydliadau fel y Ganolfan Gwaith ac Incwm, y Swyddfa Lles, yr Asiantaeth Yswiriant Cyflogeion, canolfannau cymunedol, gwasanaethau gofal cymdeithasol preifat, canolfannau gofal iechyd plant a sefydliadau gwirfoddoli.**

**Mae brigadau ffurflenni'n gweithredu ychydig yn wahanol ar draws bwrdeistrefi, ond yn gyffredinol maen nhw'n enghraifft o bartneriaeth rhwng bwrdeistrefi ac ystod o weithredwyr amrywiol mewn cymdeithas sifil, sydd hefyd yn atgyfeirio hawlwyr posibl, gan gynorthwyo brigadau ffurflenni i gysylltu â'u grwpiau targed drwy gysylltiadau anffurfiol. Mae gweithgareddau'r brigadau ffurflenni sy'n gysylltiedig â defnydd yn rhan o ddull integredig, ehangach sydd hefyd yn cynnwys strategaethau rheoli dyledion a chynyddu incwm.**

**Er bod gwasanaethau o'r math hwn wedi bod ar waith ers canol y 2000au (Eurofound, 2015), mae'n rhaid nodi bod bwrdeistrefi wedi chwarae rhan gynyddol mewn perthynas â darparu cymorth cymdeithasol dros amser. Yn benodol, ar ôl 'Deddf Cyfranogiad' 2015, gwelwyd newid mawr wrth i gyfrifoldebau symud o lefel genedlaethol i lywodraeth leol (datganoli) ac mae bwrdeistrefi'n cyflawni rôl fwy o ran darparu pob math o gymorth i grwpiau difreintiedig (Knijn a Hiah, 2019).**

**Mae Eurofound (2015) yn darparu dadansoddiad wedi'i seilio ar werthusiadau cynnar a chyfweliadau â hysbyswyr allweddol sy'n tynnu sylw at arferion rhagorol, heriau a chanlyniadau allweddol. Fodd bynnag, mae gwerthusiadau'n ymwneud â chynlluniau peilot sy'n cynnwys partneriaethau penodol ac yn canolbwyntio'n bennaf ar nifer yr atgyfeiriadau a'r math o gymorth a ddarperir. Maen nhw'n dangos mai dim ond mewn tua thri o bob deg atgyfeiriad yr eir i'r afael â phroblemau defnydd a'u bod yn aml yn ymwneud â phobl nad ydynt yn gymwys ond a allai fod angen cyngor ariannol a gwasanaethau rheoli dyledion. Maen nhw hefyd yn cyfeirio at heriau sy'n wynebu brigadau o ran capasiti cyfyngedig a phwysau costau hyfforddi. Serch hynny, mae gwaith amlasiantaethol o'r math hwn yn caniatáu ar gyfer datblygu gwybodaeth leol gryfach.**

**Trwy eu mynediad at rwydwaith amrywiol, gall y rhaglenni lleol hyn alluogi asesiad mwy pwrpasol o'r rhwystrau penodol rhag defnydd. Er enghraifft, yn Rijnstad, nododd y brigadau ffurflen rwydweithiau allweddol a oedd yn cynnwys nifer fawr o bobl gymwys nad oeddent yn hawlio budd-daliadau, ond gwnaethant hefyd gasglu gwybodaeth yn ymwneud â rhesymau dros beidio â hawlio ymhlith eu buddiolwyr – gan nodi diffyg ymwybyddiaeth, credoau ynghylch cymhwysedd ac anawsterau â'r broses ymgeisio fel prif rwystrau. I grynhoi, nid yw gwerthusiadau wedi canolbwyntio ar effaith benodol y fenter ar ddefnydd, ond yn hytrach yn datgelu sut y darparodd gyngor a chymorth ariannol ehangach a allai hefyd arwain at amlygu'r rhwystrau rhag defnydd yn well.**

Er gwaethaf yr heriau hyn, gellir ystyried bod y dulliau lleol, integredig hyn yn cwmpasu rhai elfennau allweddol sy'n cael eu harchwilio mewn gwahanol sefyllfaoedd rhyngwladol: 1) darparu gwybodaeth, 2) cymorth â'r broses hawlio a 3) meithrin partneriaeth. Mae'r dadansoddiad hwn yn rhoi cipolwg defnyddiol ar yr hyn sy'n debygol neu'n llai tebygol o weithio i gynyddu defnydd.

## Darparu gwybodaeth

Mae llawer o astudiaethau wedi archwilio rôl gwybodaeth mewn perthynas â defnydd. Yr hyn a ganfyddant yw bod ei heffaith ar gyfranogiad yn cael ei chyfryngu gan nodweddion y boblogaeth darged, y math o fudd-dal a'r math o wybodaeth. Daw llawer o'r dystiolaeth hon o'r Unol Daleithiau ac mae'n seiliedig ar ddyluniadau arbrofol neu led-arbrofol, sy'n arbennig o addas i asesu effaith.

Gall negeseuon clir gynyddu'r defnydd, hyd yn oed ymhlith pobl nad ydynt wedi ymateb yn y gorffennol (Manoli and Turner, 2014). Fodd bynnag, mae'r effeithiau hyn yn parhau i fod yn rhai byrdymor (sy'n golygu y gallai fod angen hysbysiadau ac ymgysylltiad mynych i gynyddu'r defnydd bob blwyddyn). Mae Bhargava a Manoli (2013) hefyd yn canfod bod gwybodaeth *symlach* yn rhoi hwb i hawlio a bod gwybodaeth *well* am fudd-daliadau posibl yn cynyddu'r ffigur hwn hyd yn oed ymhellach. Yn yr achos hwn, nid oedd negeseuon sy'n lleihau stigma yn fwy effeithiol – rhywbeth y gellir ei esbonio gan y ffaith nad oedd stigma wedi'i gysylltu'n gryf â'r rhaglen benodol a werthuswyd (Halpern-Meekin et al., 2016).

Yn fwy diweddar, yn yr Unol Daleithiau unwaith eto, mae Finkelstein a Notowidigdo (2019) wedi dangos bod derbyn negeseuon atgoffa a gwybodaeth yn gwella cofrestru a bod cyfuno’r mesurau hyn â chymorth gyda'r broses hawlio yn cynyddu'r defnydd hyd yn oed yn fwy. Fodd bynnag, canfuwyd hefyd fod y rhai sy'n gwneud cais ac yn cofrestru o ganlyniad i'r ymyriad yn llai difreintiedig ar y cyfan. Mae hyn yn awgrymu y gallai ymyriadau gwahanol o ran defnydd fod yn fwy addas i gyrraedd poblogaethau gwahanol, a dylai llunwyr polisi fod yn ymwybodol o effaith yr ymyriadau hyn ar dargedu.

Mae'r cymhellion sy'n gysylltiedig â budd-dal penodol yn chwarae rhan allweddol hefyd: Dangosodd Armour (2018) effeithiau dibwys o ran darparu gwybodaeth am Yswiriant Anabledd Nawdd Cymdeithasol (DI) yn yr Unol Daleithiau. Yr eithriad yw gweithwyr y mae DI yn arbennig o hael ar eu cyfer. Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â thystiolaeth o’r Deyrnas Unedig ynghylch terfynau effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd ymgyrchoedd hysbysebu (Finn a Goodship, 2014). Mae adenillion gostyngol y mesurau hyn mewn perthynas â Chredyd Pensiwn yn awgrymu bod perthynas ddeinamig rhwng y dull cyfathrebu, y mathau o fudd-daliadau a nodweddion y boblogaeth darged. Roeddent yn dangos bod agweddau negyddol a

goddefedd sydd wedi ymwreiddio yn arwain at adenillion negyddol neu ostyngol ar gyfer ymyriadau 'profedig' hyd yn oed a oedd yn ceisio cynyddu defnydd trwy ddarparu gwybodaeth.

## Cymorth gyda'r broses hawlio

Mae darparu cymorth personol gyda'r broses hawlio yn arwain at effeithiau cadarnhaol ar dderbyn ar y cyfan (Wiggan a Talbot, 2006; Finn a Goodship, 2014). Mae'r gwasanaethau hyn yn ddrutach na darparu gwybodaeth yn syml (Finkelstein a Notowidigdo, 2019), ond dylid asesu eu costau mewn perthynas â'r 'effaith luosydd' sylweddol y mae cynnydd mewn defnydd yn ei gael ar yr economi leol (Wiggan a Talbot, 2006).

Gall diffyg cymorth leihau'r defnydd yn sylweddol, yn enwedig ymhlith rhai grwpiau. Defnyddiodd Deshpande a Li (2017) ddyluniad lled-arbrofol i asesu effaith cau swyddfeydd maes Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol yn yr Unol Daleithiau. Mae'r swyddfeydd hyn yn cynorthwyo â chyflwyno ceisiadau am fudd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd a dangoswyd bod eu cau wedi arwain at ddirywiad sylweddol yn nifer y bobl a dderbyniodd fudd-dal anabledd yn yr ardaloedd cyfagos. Yr esboniad am hyn oedd y ffaith bod 1) darpar ymgeiswyr yn wynebu mwy o gostau am fod yn rhaid iddynt deithio'n bellach i gael cymorth wyneb yn wyneb a 2) daeth swyddfeydd, a oedd yn dal yn agored, i fod yn orlawn.

Roedd cau swyddfeydd hefyd yn lleihau effeithlonrwydd targedu ac yn atal ymgeiswyr mwy agored i niwed a difreintiedig, sy'n wynebu mwy o rwystrau o ran cael gafael ar ddewisiadau amgen i'r swyddfeydd maes caeedig. Mewn gwirionedd, roedd pobl â statws economaidd-gymdeithasol a lefelau addysgol is hefyd yn llai tebygol o ddefnyddio dewisiadau amgen ar-lein. Canfuwyd bod yr effeithiau a oedd yn atal pobl yn parhau am o leiaf ddwy flynedd ar ôl i swyddfa gymorth gau. Mae system weinyddol lai effeithlon a phrofiadau negyddol o'r broses yn tanseilio gwaith ymgysylltu.

## Meithrin partneriaethau

Ceir tystiolaeth argyhoeddiadol o bwysigrwydd dulliau rhagweithiol o feithrin partneriaethau ac ymgysylltu â rhwydweithiau cymdeithasol (Eurofound, 2015; Finn a Goodship, 2014; Daigneault et al., 2012; Ribar, 2014). Gall rhwydweithiau cymdeithasol chwarae rhan bwysig yn y canlynol:

- Nodi a chynnwys derbynwyr a allai fel arall ei chael yn anodd cyrraedd gwasanaethau;
- Cyfleu gwybodaeth;
- Darparu cyngor a chymorth o ran gweithdrefnau ar gyfer gwneud cais; a

- Chynyddu ymddiriedaeth yn y broses asesu.

Fel yn achos y ‘brigadau ffurflen’, gall y partneriaethau hyn ymgysylltu â chymunedau drwy ddull amrywiol, haenog, gan ddefnyddio ystod o sianeli cyfathrebu, negeswyr sy'n briodol yn ddiwylliannol a lleoliadau lleol, cyfarwydd, dibynadwy a mwy hygyrch, sy’n llai o destun stigma.

# Heriau a ffactorau hwyluso

Ceir crynodeb o'r heriau a'r ffactorau hwyluso sy'n ymwneud â pholisïau sy'n ceisio mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol drwy gynyddu defnydd o fudd-daliadau yn Nhabl 1.

### Tabl 1: Heriau a ffactorau hwyluso

| Heriau | Ffactorau hwyluso |
|---|---|
| • Yn aml, nid yw amcangyfrifon o'r defnydd ar gael neu maen nhw'n cael eu tanamcangyfrif oherwydd adroddiadau anghyflawn ar drosglwyddiadau arian parod mewn arolygon aelwydydd.<br><br>• Gall gwallau gweinyddol mewn systemau a gynlluniwyd i symleiddio neu awtomeiddio croes-gofrestru arwain at eithrio pobl. Mae lleihau gwallau yn bwysicach fyth yn y systemau hyn, oherwydd bod cysylltiadau ar draws rhaglenni yn gwneud camgymeriadau gweinyddol yn fwy peryglus i hawlwyr gan eu bod yn arwain at gwtogi incwm yn ddifrifol pan fydd mwy nag un budd-dal yn cael ei dorri.<br><br>• Gallai ymdrechion symleiddio, yn y pen draw, bennu meini prawf hawliau mewn ffyrdd sy'n tanseilio nodau polisi (e.e. oherwydd bod budd-daliadau'n cael eu talu i bobl y mae'n hawdd awtomeiddio'r hawliad ar eu cyfer, gan felly eithrio'r rhai y gallai eu hanghenion a'u hamgylchiadau cymhleth fod yn anoddach eu prosesu).<br><br>• Mae'r stigma sy'n gysylltiedig â hawlio budd-daliadau yn her barhaus. Gall mentrau lleol – e.e. dibynnu ar | • Gall polisïau a gwasanaethau sy'n hybu cynhwysiant digidol neu lythrennedd ariannol helpu ymdrechion i gynyddu defnydd drwy wella hyder, gallu a gwybodaeth hawlwyr.<br><br>• Gall gwasanaethau cyngor ar fudd-daliadau lles gynorthwyo hawlwyr yn gyfannol ar draws ystod o faterion (e.e. cefnogi heriau cyfreithiol yn erbyn yr Adran Gwaith a Phensiynau, gan gynnwys ystyried asedau, dyledion).<br><br>• Gall ymgorffori ymyriadau mewn strategaethau ehangach ar gyfer cynyddu incwm, cynhwysiant ariannol a gwrth-dlodi feithrin cydgysylltiad ar draws lefelau, datblygu arferion cynaliadwy, ac osgoi darnio.<br><br>• Gall cefnogaeth gyhoeddus a gwleidyddol gyflymu diwygiadau gweinyddol cryn dipyn. Er y gall gwthio tuag at symlrwydd gweinyddol hybu ymdrechion awtomeiddio (gan addo arbedion gwasanaeth cyhoeddus a mwy o |

bartneriaethau sydd â gweithredwyr allweddol mewn cymdeithas sifil, rhwydweithiau anffurfiol – ysgogi perthynas y gellir ymddiried ynddi, gan effeithio ar agweddau a normau sy'n gysylltiedig â stigma, ond efallai na fydd ganddynt y cymorth parhaus sy'n angenrheidiol, yn enwedig os ydynt yn dibynnu ar ddarpariaeth leol mewn cyd-destun o doriadau eang.

effeithlonrwydd), dylai'r ffordd y mae'n trosi i symlrwydd i hawlwyr gael ei hasesu'n ofalus, yn enwedig oherwydd bod profiadau ac agweddau negyddol gan hawlwyr yn gallu tanseilio polisïau sy'n ceisio cynyddu defnydd.

# Casgliad

Mae nawdd cymdeithasol yn faes polisi allweddol sy'n ymwneud â lleihau tlodi ac allgáu cymdeithasol, ond mae rhai agweddau hollbwysig y tu allan i gylch gwaith pwerau Llywodraeth Cymru. Gall ymyriadau a gynlluniwyd i gynyddu'r defnydd o drosglwyddiadau arian parod gynyddu'r cymorth sydd ar gael i'r eithaf a mynd i'r afael â rhwystrau unigol rhag defnydd (e.e. stigma, gwybodaeth, costau canfyddedig) a ffactorau gweinyddol/sy'n gysylltiedig â chynllun (e.e. cymhlethdod, lefel y cymorth). Mae gwell dealltwriaeth o'r lefelau defnydd presennol a datblygu strategaethau gwerthuso cadarn yn hanfodol. Gall 'pasbortio' budd-daliadau (e.e. drwy groesgofrestru symlach neu awtomataidd) gynyddu'r defnydd, a gellid ei gymhwyso i rai budd-daliadau datganoledig. Gall atebion o'r fath weithredu ar y cyd ag ymyriadau lleol sy'n fwy addas i adeiladu gwybodaeth leol, mabwysiadu gweithgareddau allgymorth rhagweithiol addas, a darparu cymorth effeithiol i aelwydydd sy'n arbennig o agored i niwed.

## Trosglwyddo i Gymru

Mae polisïau yn y maes hwn yn cyd-fynd â blaenoriaethau a gweledigaeth strategol Llywodraeth Cymru. Gallai awtomeiddio a 'phasbortio' gynyddu'r defnydd o amrywiaeth o fudd-daliadau nawdd cymdeithasol y Deyrnas Unedig yng Nghymru. Mae polisïau o'r fath yn gofyn am werthusiad trylwyr o ofynion data a datblygu strategaeth gydgysylltiedig.

Ar yr un pryd, gall mentrau lleol sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau cymorth sy'n dibynnu ar strategaethau aml-sianel, aml-bartneriaeth fod yn effeithiol, yn enwedig i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed. Gallant hefyd ddeall profiad pobl yn

fanylach a mynd i'r afael â rhwystrau penodol. Mae mentrau o'r fath yn gofyn am werthusiadau cadarn ac asesiad o heriau cynaliadwyedd.

# Camau gweithredu addawol

Daw'r adran hon i ben gyda **chamau gweithredu addawol** i'w hystyried yng nghyd-destun Cymru fel rhai sy'n deillio o'r dadansoddiad o'r llenyddiaeth ryngwladol:

1. Mae **awtomeiddio** (gweler Astudiaeth Achos 1) yn effeithiol o ran gwella'r defnydd a gall leihau'r perygl o ymrannu, gan sicrhau bod arferion gorau'n cael eu rhannu. Gall hwyluso'r broses o hawlio fynd i'r afael â rhwystrau pwysig i'r defnydd, megis anegni, diffyg ymwybyddiaeth a gwybodaeth ac, o bosibl, stigma. Dylai'r blaenoriaethau gynnwys y canlynol:
    - **Archwilio trefniadau rhannu data presennol a gwerthuso synergeddau posibl** er mwyn nodi cyfleoedd i awtomeiddio.
        - Gellir dysgu gwersi defnyddiol o fenter yr Alban i gysylltu nifer o grantiau datganoledig â chofnodion Budd-dal Tai neu Ostyngiadau'r Dreth Gyngor.
    - **Rhaid cynnig llwybrau hawlio amgen** er mwyn cywiro gwallau gweinyddol posibl a lleihau'r risg o eithrio hawlwyr.
        - Dylid asesu p'un a yw systemau awtomataidd yn cynyddu 'symlrwydd', gan na ellir cymryd hyn yn ganiataol. Mae yna dystiolaeth nad yw symlrwydd gweinyddol yn aml yn golygu symlrwydd i'r sawl sy'n hawlio. **Gall tystiolaeth o brofiad byw hawlwyr a gweinyddwyr gynnig mewnwelediad.**
2. Gall mentrau lleol ymgorffori ystod o ymyriadau, o ddarparu gwybodaeth i gyngor a chymorth wrth hawlio. Mae partneriaethau â mudiadau cymdeithas sifil yn ysgogi perthnasoedd sefydledig o ymddiriedaeth, a all fod yn hanfodol i gyrraedd a chynorthwyo'r hawlwyr mwyaf agored i niwed ac yn cyfrif am agweddau a normau sy'n gysylltiedig â stigma (gweler Astudiaeth Achos 2). Fodd bynnag, yn aml nid oes gan y mathau hyn o raglenni prosesau gwerthuso cadarn. **Dylai proses werthuso ystyried y canlynol:**
    - Pa elfennau penodol o'r mentrau sy'n gweithio;
    - I bwy maen nhw'n gweithio (sy'n arbennig o bwysig i nodi grwpiau 'a adawyd ar ôl' a datblygu strategaethau digonol i'w cyrraedd);
    - P'un a yw'r fenter wedi creu manteision y tu hwnt i'r boblogaeth darged;
    - I ba raddau y ceir difuddiant; a
    - Chanlyniadau (e.e. gwell defnydd) yn hytrach na dangosyddion allbwn yn unig (e.e. mwy o gysylltiadau gwasanaeth).

# Cyfeirnodau

ap Gruffudd, G. , Spencer, G., Payne, L., Wilde, J., Watkins, A., Jones, R., **Thomas**, EM, Hughes, C., ac O'Connor, B. (2017). **Ailfeddwl ynghylch Cyrhaeddiad Addysgol a Thlodi (REAP) - yng Nghefn Gwlad Cymru**. Bangor: Prifysgol Bangor.

Ambegaokar, S., Neuberger, Z., a Rosenbaum, D. (2017). **Opportunities to Streamline Enrollment Across Public Benefit Programs**. Canolfan Blaenoriaethau'r Gyllideb a Pholisi

Armour, P. (2018). **The Role of Information in Disability Insurance Application: An Analysis of the Social Security Statement Phase-In**. American Economic Journal: Economic Policy, 10 (3), 1-41.

Aston, J., Charlesworth, Z., Fell, B., Hick, R., Howarth, P., Jones, S., Macor, F., Tims, F., a Varney, C. (2020). **Deall effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac Ôl-ddyledion Rhent yng Nghymru.** Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (GSR) rhif 47/2020.

Beatty, C., a Fothergill, S. (2014). **The local and regional impact of the UK's welfare reforms.** Cambridge Journal of Regions, Economy and Society, 7(1), 63–79.

Beatty, C., a Fothergill, S. (2017). **Welfare reform in the United Kingdom 2010–16: Expectations, outcomes, and local impacts.** Social Policy and Administration, 52(5), 950-968.

Ben-Ishai, S., Robson, J., a Schwartz, S. (2019). **Eligible Non-Participation in Canadian Social Welfare Programs.** McGill Law Journal, 64(3), 499.

Sefydliad Bevan. (2020). **Transforming Wales: how the Welsh public services and benefits can reduce poverty and inequality**. Wedi'i adfer o: **https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2020/10/Transforming-Wales-through-public-services-and-benefits-FINAL.pdf**

Bhargava, S., a Manoli, D. (2013). **Why are Benefits Left on the Table? Assessing the Role of Information, Complexity, and Stigma on Take-up with an IRS Field Experiment**. Pittsburgh, PA: Prifysgol Carnegie Mellon.

Bourquin, P., Norris Keiller, A., a Waters, T. (2019).  **The distributional impact of personal tax and benefit reforms, 2010 to 2019.** Nodyn Briffio IFS BN270. Llundain: Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid.

Bramley, G., a Watkins, D. (2013).  **Local Incomes and Poverty in Scotland: Developing Local and Small Area Estimates and Exploring Patterns of Income Distribution, Poverty and Deprivation**. Adroddiad Ymchwil ar gyfer y Gwasanaeth Gwella ar ran pedwar Awdurdod Lleol a Llywodraeth yr Alban.

Brewer, M., a Handscomb, K. (2021). **The debts that divide us Flash findings from a survey of families claiming Universal Credit**. Llundain: Sefydliad Resolution.

Cantillon, B. (2011). **The paradox of the social investment state: growth, employment and poverty in the Lisbon era**. Journal of European Social Policy, 21(5), 432–449.

Carter, I. (2022a). **Tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru:** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Carter, I. (2022b). **Tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru: Adolygiad o dystiolaeth profiad bywyd.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant. (2019).  **Social Security Committee, Benefit Take-up. Submission by CPAG in Scotland**. Wedi'i adfer o: **https://cpag.org.uk/sites/default/files/files/policypost/CPAG_submissions_Template_Benefit_Take-up.pdf**

Cyngor ar Bopeth Cymru. (2014). **One day at a time: Examining the cumulative impact of welfare reform on benefit claimants in Wales**. Caerdydd: Cyngor ar Bopeth.

Collado, D., Cantillon, B., Van den Bosch, K., Goedemé, T., a Vandelannoote, D. (2016). **The end of cheap talk about poverty reduction: the cost of closing the poverty gap while maintaining work incentives**. ImPRovE Working Paper, 16(08). Antwerp: Canolfan Polisi Cymdeithasol Herman Deleeck, Prifysgol Antwerp.

Cooper, K., a Hills, J. (2021). **The Conservative Goverments' Record on Social Security: Policies, Spending and Outcomes, May 2015 to pre-COVID 2020**. Papur Ymchwil 10 Polisïau Cymdeithasol a Chanlyniadau Dosbarthiadol mewn Prydain sy'n Newid. Llundain: Canolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol.

Currie, J. (2004). **The Take Up of Social Benefits**. Papur Gweithio rhif 10488 NBER. Cambridge, MA: Swyddfa Genedlaethol Ymchwil Economaidd.

Daigneault, P., Jacob, S., a Tereraho, M. (2012)**. Understanding and Improving the Take-up of Public Programs: Lessons Learned from the Canadian and International Experience in Human Services**. International Journal of Business and Social Science, 3(1), 39-50.

De Agostini, P., Hills, J., a Sutherland, H. (2014). **Were we really all in it together? The distributional effects of the Coalition's tax-benefit policy changes**. Polisi Cymdeithasol mewn Hinsawdd Oer, Papur Gwaith 10. Llundain: y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol, Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain.

Yr Adran Gwaith a Phensiynau. (2020). **Income-related benefits: estimates of take-up financial year 2018-2019**. Wedi'i adfer o: **https://www.gov.uk/government/statistics/income-related-benefits-estimates-of-take-up-financial-year-2018-to-2019**

Deshpande, M., a Li, Y. (2019). **Who is screened out? Application costs and the targeting of disability programs**. American Economic Journal: Economic Policy, 11(4), 213-248.

Dorn, S., Minton, S., a Huber, E. (2014). **Examples of Promising Practices for Integrating and Coordinating Eligibility, Enrollment and Retention: Human Services and Health Programs Under the Affordable Care Act**. Adroddiad Ymchwil, Swyddfa'r Ysgrifennydd Cynorthwyol dros Gynllunio a Gwerthuso.

Pwyllgor Materion Economaidd. (2020). **Universal Credit isn't working: proposals for reform**, **2nd Report of Session 2019-21, HL Paper 105**. Wedi'i adfer o: **https://publications.parliament.uk/pa/ld5801/ldselect/ldeconaf/105/10502.htm**

Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau (2019). **Budd-daliadau yng Nghymru: Opsiynau i'w Cyflawni'n Well**. Senedd. Wedi'i adalw o: **https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12832/cr-ld12832%20-e.pdf**

Cyflogaeth a Datblygiad Cymdeithasol Canada (2019a). **Evaluation of the Guaranteed Income Supplement, Phase 1 Summary Report**. Y Gyfarwyddiaeth Werthuso - Cangen Polisi Strategol a Gwasanaeth.

Cyflogaeth a Datblygiad Cymdeithasol Canada. (2019b). **Old Age Security Programme, Phase 2 Evaluation**. Y Gyfarwyddiaeth Werthuso - Cangen Polisi Strategol a Gwasanaeth.

Cyflogaeth a Datblygiad Cymdeithasol Canada. (2019c). **Take-up rate of the Guaranteed Income Supplement: findings from tax and program administrative data**. Y Gyfarwyddiaeth Werthuso - Cangen Polisi Strategol a Gwasanaeth.

Eurofound. (2015). **Access to social benefits: Reducing non-take-up.** Swyddfa Gyhoeddiadau'r Undeb Ewropeaidd, Lwcsembwrg

Finn, D., a Goodship, J. (2014). **Take-up of benefits and poverty: an evidence and policy review**. Canolfan Cynhwysiant Economaidd a Chymdeithasol.

Frazer, H., a Marlier, E. (2016). **Minimum Income Schemes in Europe: A study of National Policies 2015.** Rhwydwaith Polisi Cymdeithasol Ewrop. Wedi'i adfer o: https://ec.europa.eu/social/main.jsp?langId=en&catId=89&newsId=2506&furtherNews=yes

Fuchs, M. (2009). **Social assistance – No, thanks? The non-take-up phenomenon and its patterns in Austria, Germany and Finland after 2000**. Canolfan Ewropeaidd ar gyfer Polisi ac Ymchwil Lles Cymdeithasol, Fienna.

Gardiner, L., a Finch, D. (2020). **The long and winding road: The introduction and impact of Universal Credit in Liverpool City Region and the UK**. Llundain: Sefydliad Resolution

Halpern-Meekin, S., Tach, L., Sykes, J., ac Edin, K. (2016). **A Hand Up for Low-Income Families**. Contexts, 15(2), 52-57.

Hirsch, D., a Stone, J. (2020). **The cost of pensioner poverty and the non-take-up of Pension Credit**. Adroddiad Prifysgol Loughborough.

Hobson, F., Spoor, E., a Kearton, L. (2019). **Managing Money on Universal Credit. How design and delivery of Universal credit affects how people manage their money**. Cyngor ar Bopeth. Wedi'i adalw o: https://www.citizensadvice.org.uk/Global/CitizensAdvice/welfare%20publications/Managing%20Money%20on%20Universal%20Credit%20(FINAL).pdf

Adnoddau Dynol a Datblygu Sgiliau Canada. (2010). **Evaluation of the Guaranteed Income Supplement Take-up Measures and Outreach***.* Y Gangen Polisi ac Ymchwil Strategol, SP-950-05-10E.

Hümbelin, O. (2019). **Non-Take-Up of Social Assistance: Regional Differences and the Role of Social Norms**. Swiss Journal of Sociology, 45*(*1), 7-33.

Jachimowicz, J., Duncan, S., Weber, E., a Johnson, E. (2019). **When and why defaults influence decisions: a meta-analysis of default effects**. Behavioural Public Policy, 3(2), 159-186.

Kenway, P., Ayrton, C., Chandran, C., a Tortajada, I. (2022). **What makes an anti-poverty strategy effective?** Llundain: Sefydliad Polisi Newydd.

Kenworthy, L. (1999). **Do Social-Welfare Policies Reduce Poverty? A Cross-National Assessment**. Social Forces, 77(3), 1119-1139.

Knijn, T., a Hiah, J. (2019). **Coping with the Participation Act: Welfare experiences in the Netherlands**. ETHOS WP 5.5.

KPMG ac Economeg Rhydychen. (2010). **Gwerthuso Cynllun Hawlio Budd-dal y Dreth Gyngor a Budd-dal Tai yng Nghymru**. Ymchwil Gymdeithasol Cynulliad Cymru.

Leventi, C., Sutherland, H., a Tasseva, I.V. (2019). **Improving poverty reduction in Europe: What works best where?** Journal of European Social Policy, 29(1), 29-43.

Finkelstein, A., a Notowidigdo, M. (2019). **Take-up and targeting: experimental evidence from SNAP**. The Quarterly Journal of Economics, 134(3), 1505-1556.

Matsaganis M., Paulus, A., a Sutherland H. (2008). **The take up of social benefits***.* Nodyn Ymchwil 5/2008. Arsyllfa Sefyllfa Gymdeithasol, y Comisiwn Ewropeaidd.

Matsaganis, M., Ozdemirr, E., a Ward, T. (2014). **The coverage rate of social benefits**. Nodyn Ymchwil 9/2013. Cyflogaeth, Materion Cymdeithasol a Chynhwysiant, y Comisiwn Ewropeaidd

Millar J. (2019). **Self-Responsibility and Activation for Lone Mothers in the United Kingdom.** American Behavioral Scientist, 63(1), 85-99.

Milligan, K., a Schirle, T. (2013). **The Retirement Income System and the Risks Faced by Canadian Seniors**. Papur Gwaith Rhif 120 Rhwydwaith Ymchwilwyr y Farchnad Lafur a Sgiliau Canada.

Nelson, K. (2011). **Improving the efficiency of social protection: Synthesis Report**. Brwsel: Y Comisiwn Ewropeaidd

OECD. (2018). **Poor children in rich countries: why we need policy action, Policy Brief on Child Well-being**. Paris: OECD Publishing. Wedi'i adfer o: **https://www.oecd.org/els/family/Poor-children-in-rich-countries-Policy-brief-2018.pdf**

Ribar, D. (2014). **How to improve participation in social assistance programs**. IZA World of Labor, 104.

Rupp, K., a Riley, G. (2016). **State Medicaid Eligibility and Enrollment Policies and Rates of Medicaid Participation among Disabled Supplemental Security Income Recipients.** Social Security Bulletin, 76(3), 17-40.

Schirle, T. (2012). **The Incidence of Low Income Among Seniors in Canada**. Heriau prosiect HRSDC / CLSRN ar gyfer System Incwm Ymddeol Canada.

Schirle, T. (2013)**. Senior Poverty in Canada: A Decomposition Analysis**. Canadian Public Policy, 39(4), 517.

Llywodraeth yr Alban. (2020). **Benefits take-up: joint letter to the UK Government.** Wedi'i adfer o**: https://www.gov.scot/publications/benefits-take-up-joint-letter-to-the-uk-government/**

Shillington, R. (2006). **Financial Literacy and the Take-up of Government Benefits**. Adnoddau Tristat. Wedi'i adfer o: **http://www.shillington.ca/publications/Financial%20Literacy.pdf**

Summers, K., a Young, A. (2020). **Universal simplicity? The alleged simplicity of Universal Credit from administrative and claimant perspectives.** Journal of Poverty and Social Justice, 28(2), 169-186.

van Oorschot, W. (1998). **Failing selectivity: On the extent and causes of non-take-up of social security benefits**, yn H.J. Andress (Gol.), Empirical poverty research in a comparative perspective (101-130). Aldershot: Ashgate

Veall, M. R. (2012). **Estimating the Number of Guaranteed Income Supplement Recipients Who Have Mistakenly Saved in Registered**

**Retirement Savings Plans and Registered Pension Plans.** Heriau HRSDC / CLSRN ar gyfer System Incwm Ymddeol Canada.

Cynghorwyr Hawliau Lles Cymru. (2019). **Ymchwiliad i Fudd-daliadau yng Nghymru: opsiynau i'w cyflawni'n well.** Wedi'i adfer o: **https://business.senedd.wales/documents/s87160/BW%2012%20Welfare%20Rights%20Advisers%20Cymru.pdfs**

Llywodraeth Cymru. (2013). **Adroddiad Astudiaeth Achos Prydau Ysgol am Ddim**. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2014). **Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru – dadansoddiad Cam 3.** Llywodraeth Cymru: Caerdydd.

Llywodraeth Cymru. (2021). **Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion**. StatsCymru, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Wiggan, J., a Talbot, C. (2006). **The benefits of welfare rights advice: a review of the literature**. Cymdeithas Genedlaethol Cynghorwyr Hawliau Lles.

# Atodiad: Methodoleg

## Diffiniad o dlodi ac allgáu cymdeithasol

At ddibenion y prosiect hwn, cytunwyd y byddai cysyniad aml-ddimensiwn o anfantais, gan gynnwys dimensiynau cymdeithasol yn ogystal ag economaidd, yn cael ei fabwysiadu. Mae Matrics Allgáu Cymdeithasol Bryste (B-SEM) (Levitas et al., 2007) yn darparu'r strwythur damcaniaethol sy'n sail i ddethol meysydd polisi. Mae'r B-SEM yn defnyddio'r diffiniad ymarferol canlynol o allgáu cymdeithasol:

> **"Proses gymhleth ac aml-ddimensiwn yw allgáu cymdeithasol. Mae'n cynnwys diffyg neu wrthod adnoddau, hawliau, nwyddau a gwasanaethau, a'r anallu i gymryd rhan yn y berthynas a'r gweithgareddau arferol, sydd ar gael i'r rhan fwyaf o bobl mewn cymdeithas, boed hynny mewn meysydd economaidd, cymdeithasol, diwylliannol neu wleidyddol. Mae'n effeithio ar ansawdd bywyd unigolion a thegwch a chydlyniant cymdeithas gyfan."**(Levitas et al., 2007, tud.9).

Mae wedi'i strwythuro o amgylch tri phrif faes a deg is-faes (gweler Tabl A1).

### Tabl A1: Meysydd ac is-feysydd B-SEM

| A. Adnoddau: | |
|---|---|
| **A1: Adnoddau materol/economaidd** | Mae hyn yn cynnwys allgáu mewn perthynas ag incwm, hanfodion sylfaenol (fel bwyd), asedau, dyled ac allgáu ariannol. |
| **A2: Mynediad at wasanaethau cyhoeddus a phreifat** | Mae hyn yn ymwneud ag allgáu o wasanaethau cyhoeddus a phreifat oherwydd bod gwasanaethau'n annigonol, yn anfforddiadwy neu nad ydynt ar gael. Mae'r ystod o wasanaethau yn cwmpasu gwasanaethau cyhoeddus, cyfleustodau, trafnidiaeth a gwasanaethau preifat (gan gynnwys gwasanaethau ariannol). |
| **A3: Adnoddau cymdeithasol** | Mae hyn yn adlewyrchu ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd rhwydweithiau cymdeithasol a chymorth cymdeithasol ar gyfer lles unigolion. Mae agwedd |

| | |
|---|---|
| | allweddol yn ymwneud â phobl sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu a'r rhai sydd wedi'u sefydliadoli. |

| B. Cyfranogiad: | |
|---|---|
| **B1: Cyfranogiad economaidd** | Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn cyflogaeth – sydd nid yn unig yn bwysig ar gyfer cynhyrchu adnoddau ond sydd hefyd yn agwedd ar gynhwysiant cymdeithasol ynddo'i hun. Mae p'un a yw gwaith yn brofiad cadarnhaol, cynhwysol yn dibynnu'n rhannol ar y gwobrau ariannol a ddaw yn ei sgil, ac yn rhannol ar natur ac ansawdd y gwaith. Deëllir gwaith yn fras ac mae'n cynnwys gweithgareddau gofalu a gwaith di-dâl. |
| **B2: Cyfranogiad cymdeithasol** | Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol cyffredin yn ogystal â chydnabod pwysigrwydd cyflawni rolau ystyrlon (e.e. fel rhieni, neiniau a theidiau, plant). |
| **B3: Diwylliant, addysg a sgiliau** | Mae hyn yn cwmpasu cyfalaf diwylliannol a chyfranogiad diwylliannol. Mae'n cynnwys caffael cymwysterau ffurfiol, sgiliau a mynediad at wybodaeth yn ehangach, er enghraifft cynhwysiant llythrennedd digidol. Mae hefyd yn cynnwys gweithgareddau diwylliannol a hamdden. |
| **B4: Cyfranogiad gwleidyddol a dinesig** | Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn prosesau gwleidyddol ffurfiol yn ogystal â mathau o weithgarwch gwleidyddol distrwythur ac anffurfiol, gan gynnwys ymgysylltu dinesig a chyfranogiad cymunedol. |
| **C. Ansawdd bywyd:** | |
| **C1: Iechyd a lles** | Mae hyn yn ymdrin ag agweddau ar iechyd. Mae hefyd yn cynnwys agweddau eraill sy'n ganolog i les unigolion megis boddhad bywyd, datblygiad personol, hunan-barch, a bod yn agored i stigma. |
| **C2: Amgylchedd byw** | Mae hyn yn canolbwyntio ar nodweddion yr amgylchedd byw 'dan do', gyda dangosyddion ansawdd tai, tai annigonol ac allgáu ar ffurf digartrefedd; a'r amgylchedd byw 'awyr agored', sy'n cynnwys nodweddion cymdogaeth. |
| **C3: Troseddu, niwed a throseddoleiddio** | Mae hyn yn cynnwys amlygiad i niwed, diogelwch gwrthrychol/goddrychol a throseddu a throseddoleiddio. Mae'n adlewyrchu natur waharddol bosibl bod yn destun |

| | |
|---|---|
| | niwed, yn ogystal ag allgáu, stigmateiddio a throseddoleiddio'r cyflawnwyr. |

Nodiadau: y disgrifiadau o'r is-feysydd yw dealltwriaeth yr awduron o'r hyn y mae pob is-faes yn ei gynnwys yn seiliedig ar Levitas et al. (2007).


# Dewis meysydd polisi

I ddechrau, nododd y tîm ymchwil restr hir o 40 o feysydd polisi gan gyfeirio at feysydd ac is-feysydd y B-SEM. Llywiwyd y rhestr hir, yn rhannol, gan adolygiad o dueddiadau allweddol mewn tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru, ar draws y deg is-faes, a gynhaliwyd gan WCPP (Carter, 2022a); ystyried pwerau datganoledig Llywodraeth Cymru ar draws meysydd polisi; a chyfarfodydd ag arbenigwyr. O'r rhestr hir hon, cytunwyd ar restr fer o 12 maes polisi. Wrth lunio’r rhestr fer, ystyriwyd cyngor ar feysydd blaenoriaeth a nodwyd gan grŵp ffocws o arbenigwyr, ond yn y pen draw dewiswyd y rhestr derfynol o 12 polisi gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r set derfynol o 12 maes polisi yn cwmpasu sbectrwm eang o fewn y B-SEM, ac mae'r rhan fwyaf yn gysylltiedig â mwy nag un is-faes o fewn y B-SEM (Ffigur A1). Fodd bynnag, ni ddylid ystyried bod y detholiad terfynol yn gynhwysfawr o safbwynt polisi tlodi ac allgáu cymdeithasol. Y rheswm am hyn yw nad yw rhai meysydd polisi pwysig wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru ac, felly, ni chawsant eu cynnwys. Er enghraifft, er bod digonolrwydd nawdd cymdeithasol yn sbardun allweddol i dlodi, nid oes gan Lywodraeth Cymru bwerau ar hyn o bryd i bennu elfennau allweddol o bolisi nawdd cymdeithasol (e.e. cyfraddau a meini prawf cymhwysedd ar gyfer y prif fudd-daliadau mewn gwaith a di-waith). Dyma'r rheswm pam rydym yn canolbwyntio ar un agwedd ar nawdd cymdeithasol, sef y nifer sy'n manteisio ar drosglwyddiadau arian parod, y mae gan Lywodraeth Cymru bŵer i ddylanwadu arni.

Ffactor arall oedd cwmpas a graddfeydd amser y prosiect, a oedd yn cyfyngu'r dewis i 12 maes polisi ac yn golygu bod rhaid eithrio meysydd pwysig eraill (er enghraifft, gofal cymdeithasol, gofal iechyd a throseddu). Er mwyn sicrhau bod modd rheoli'r adolygiadau, roedd hefyd angen nodi ffocws ar gyfer pob un o'r 12 maes polisi. Nododd y tîm ymchwil ffocws ar gyfer pob un o'r adolygiadau ar sail cwmpas cychwynnol byr o'r dystiolaeth ymchwil a thrafod â WCPP, a ymgynghorodd ag arbenigwyr sector a pholisi lle y bo'n berthnasol. Mae hyn yn golygu ei bod yn debygol y bydd polisïau ychwanegol y gellid eu cynnwys mewn strategaeth tlodi ac allgáu cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru *o fewn* y 12 maes polisi ac *yn ogystal â’r* 12 maes polisi a adolygwyd.

**Ffigur A1. Y meysydd polisi a ddewiswyd wedi'u mapio i is-feysydd B-SEM perthnasol**




Ffynhonnell: paratowyd gan yr awduron

Nodiadau: Mae'r ffigur yn amlinellu sut mae'r 12 maes polisi a ddewiswyd yn cysylltu â'r matrics B-SEM: mae llinellau trwm yn dangos y berthynas rhwng pob maes polisi a'r prif is-faes/is-feysydd B-SEM, mae llinellau toredig ysgafn yn nodi is-feysydd B-SEM eilaidd a ddewiswyd y mae'r polisïau'n gysylltiedig â nhw (mae rhestr lawn o'r 'is-feysydd eilaidd' hyn wedi'i chynnwys yn yr adolygiadau penodol).

# Camau adolygu

Yn yr adran 'tystiolaeth o effeithiolrwydd polisi', er nad oedd yn bosibl cynhyrchu adolygiad systematig llawn (er bod tystiolaeth o adolygiadau systematig presennol a dadansoddiadau meta-lefel wedi'u cynnwys pan oeddent ar gael), mabwysiadwyd dull strwythuredig. I ddechrau, roedd hyn yn cynnwys gwerthuso cyflwr y llenyddiaeth berthnasol, gan ganolbwyntio ar b'un a aseswyd effeithiolrwydd drwy ddulliau yr ystyrir yn gyffredinol eu bod yn fwy addas i sefydlu achosoldeb (e.e. ar sail cynlluniau graddio hierarchaidd fel Graddfa Dull Gwyddonol Maryland (Sherman et al., 1997) neu lefelau tystiolaeth Canolfan Rhydychen ar gyfer Meddygaeth seiliedig ar Dystiolaeth (OCEBM) (Howick et al., 2011)), megis hapdreialon rheoledig, meta-ddadansoddiadau o hapdreialon rheoledig ac astudiaethau lled-arbrofol eraill. Er bod hapdreialon rheoledig yn arbennig o effeithiol wrth nodi a yw ymyriad penodol wedi

cael effaith mewn cyd-destun penodol, gallai mathau eraill o dystiolaeth, fel astudiaethau lled-arbrofol ac arsylwadol gyda rheolaethau priodol, fod yn fwy addas, yn dibynnu ar y math o ymyriad, i sefydlu'r ystod o ganlyniadau a gyflawnwyd yn ogystal â rhoi dealltwriaeth o effeithiau dosbarthiadol a chaniatáu ar gyfer dadansoddi is-grwpiau (h.y. 'i bwy' y gweithiodd yr ymyrraeth). Wrth asesu’r dystiolaeth, dewiswyd astudiaethau achos i ymhelaethu ymhellach ar rai o'r canfyddiadau allweddol a ddeilliodd o'r adolygiad ac i nodi enghreifftiau penodol o ymyriadau polisi addawol.

Mewn ambell faes, tynnodd yr adolygiad o lenyddiaeth sylw at ddiffyg gwerthusiadau cadarn – mae'r adolygiadau'n tanlinellu hyn ac yn cyflwyno'r dystiolaeth orau a ganfuwyd ynghyd ag asesiad o gryfder y dystiolaeth. Lle y bo'n bosibl, ystyriwyd gwerthusiad o'r mecanweithiau newid sylfaenol hefyd, gan ganiatáu ar gyfer esbonio nid yn unig a yw ymyriad penodol yn gweithio, ond hefyd pam, gan felly hefyd hwyluso'r gwaith o nodi heriau a ffactorau hwyluso, sy'n hanfodol wrth feddwl nid yn unig am 'beth' y dylid ei wneud ond hefyd 'sut' y gellir ei weithredu orau.

# Diolchiadau

Rydym yn ddiolchgar i nifer o arbenigwyr a fynychodd gyfres o grwpiau ffocws yr oedd eu mewnbwn wedi:

- helpu i lywio'r broses o nodi meysydd polisi allweddol;
- gwella ein dealltwriaeth o drosglwyddo polisïau i Gymru; a
- llywio ein hystyriaeth o heriau gweithredu a ffactorau hwyluso.

Hoffem ddiolch hefyd i'r bobl ganlynol am gynnal adolygiad cymheiriaid o'r adolygiadau polisi: Dr Rod Hick, Prifysgol Caerdydd; Dr Victoria Winckler, Sefydliad Bevan; a Gwennan Hardy; y Ganolfan Cyngor ar Bopeth. Helpodd Amanda Hill-Dixon, Dan Bristow, Manon Roberts ac Isabelle Carter yn WCPP i lywio'r prosiect a rhoesant adborth amhrisiadwy a sylwadau manwl ar ddrafftiau o'r adolygiadau polisi.

## Manylion am yr Awduron

**Mae Dr Irene Bucelli** yn swyddog ymchwil yn y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol yn Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain.

**Mae Dr Abigail McKnight** yn Gyfarwyddwr y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol a Chymrawd Ymchwil Athrawol Cyswllt yn Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:
**Dan Bristow**
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
+44 (0) 29 2087 5345
info@wcpp.org.uk

OGL Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru